

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar - nos Iau, 9fed o Ionawr, 2020 yn Neuadd Llanystumdwy.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Anwen Jones (Cadeirydd), Aled Lloyd Evans, Margaret Griffith, William Ifor Hughes, Trefor Wyn Jones, Tegid Jones, Gareth O. Davies, Naomi Jones, Thomas Prys Jones, Angela Williams a'r Clerc.

1.Ymddiheuriadau.

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Aled Davies (Is-gadeirydd), Darren Morley, Ceri Jones, Sian Angharad Parry, Sion Aled Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 5ed o Ragfyr 2019.

3. Llofnodi cadarnhâd taliad BACS mis Rhagfyr 2019 gan y Cadeirydd.

4. Materion yn codi o'r cofnodion.

5. **Datgan buddiant personol** – neb.

6. **Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned - dim.**

7. **Cais Trwydded Eiddo (Deddf Trwyddedu 2003) Plas Talhenbont (MWG/DE0376).**

Derbyniwyd cais gan Cyngor Gwynedd ar 06.12.19, ac roedd angen ateb erbyn 27.12.19, (sef ar ol ein cyfarfod Rhagfyr a chyn un mis Ionawr 2020). Anfonwyd manylion y cais at y Cynghorwyr, a derbyniwyd ymateb yn dweud nad oedd gan neb wrthwynebiad.

Y Clerc wedi anfon llythyr at Cyngor Gwynedd yn cadarnhau hyn.

8. **Lon Penbryn/Capel Pencoed, Llangybi-** Gwaith ail wynebu'r lon, gan gwmni 'Hogan Adeiladwaith Cyf.'. Bydd y gwaith yn cychwyn ar 05.01.2020, ac i gymryd hyd at 4 diwrnod. **Derbyn.**

9. **Biniau halen** o fewn y gymuned – mae 5 ohonynt:-

- ger Gwyddfôr, Chwilog, /Pentyrch Uchaf, Llangybi, /rhwng y Bont a Chapel y Beirdd,/ Bryn Beddau, Rhoslan a Tan yr Erw, Lon Gefn Llanystumdwy.

Mae angen cadw golwg ar faint o halen sydd ynddynt yn gyson yn ystod y gaeaf, a gadael i'r Clerc wybod os oes angen ei llenwi. Roedd pob un yn iawn.

10. **Cynnal a chryfhau Bioamrywiaeth o fewn y gymuned**

Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Cyngorau Cymuned & Thref) o dan Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016, Adran 6, i baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn y bwriadant ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i Gynnal a Chryfhau Bioamrywiaeth o fewn eu meysydd gwaith presennol.

Y Clerc wedi ysgrifennu 'Adroddiad ar y Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau 2019', ac roedd wedi cael ei anfon at bawb cyn y cyfarfod, er mwyn cael ei gymeradwyo ar y noson. Y Cadeirydd a'r Clerc yn llofnodi'r ddogfen ar y noson, a bydd yn cael ei roi ar y wefan.

11. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

12. Dwr Cymru - wedi derbyn gwybodaeth y bydd y gwaith o osod pibell ddwr yfed newydd yng Nghaerffynnon yn cael ei orffen i gyd erbyn diwedd Ionawr 2020.

Derbyn.

Rhoslan/Ynys

Chwilog

13. Ysgol Chwilog - y Clerc wedi anfon llythyr at Mr Garem Jackson, Pennaeth yr Adran Addysg, a Mr Gwern ap Rhisiart yn gofyn am wneud arolwg manwl o'r ysgol, oherwydd y cynnydd mewn niferoedd plant yno. Y Clerc wedi derbyn ebost gan Mr Gwern ap Rhisiart, Swyddog Addysg Ardal Cyngor Gwynedd yn dweud ei bod yn mynd i "*gynnal trafodaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol yn ystod yr wythnosau nesaf i geisio cael datrysiad i'r sefyllfa.*" **Derbyn.**

Pencaenewydd/Sardis

14. Pant ger Glasfryn Fawr - angen clirio'r dail o'r cwterydd, oherwydd fod pyllau dwr mawr yno - **Clerc wedi cyfeirio'r mater i sylw Cyngor Gwynedd**

Llangybi

Materion Ariannol

15. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud, ac y rhagwelir sydd angen ei wneud erbyn diwedd Mawrth 2020, drwy ffurf rhestr 'excel'.

Y Cadeirydd wedi llofnodi'r ddogfen 'cyfrifon' a'r ddogfen 'cyllideb', sydd wedi cael ei diweddarau hyd at 09.01.2020.

16. **Praesept 2020-2021** - wedi derbyn ebost gan Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd yn gofyn faint o braesept yr oedd Cyngor Cymuned Llanystumdwy ei angen ar gyfer y flwyddyn nesaf. Angen cwblhau'r ffurflen gais cyn 24.01.2020. **Penderfynwyd gofyn am £3000.00 yn fwy o 01.04.2020 ymlaen (sef cyfanswm o £18,000.00)**, oherwydd fod costau yn codi'n flynyddol, nad oedd y praesept wedi cael ei godi ers blynnyddoedd ac er mwyn gallu cyfrannu tuag at Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2021. Roedd hyn hefyd wedi cael ei drafod yn ein Pwyllgor Busnes ar 05.12.19, ac roedd angen gwneud penderfyniad terfynol yn y cyfarfod llawn fis Ionawr 2020. **Derbyn.**

17. **Eisteddfod Genedlaethol 2021** - derbyniwyd llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, a Chadeirydd y Gronfa Leol, yn datgan mai £10,000.00 yw'r targed drafft yn ardal Llanystumdwy. **Trafod y mater ar y noson, a cytunwyd y byddai penderfyniad yn cael ei wneud fis Chwefror 2020, ynglŷn â faint o gyfraniad fyddai'n cael ei roi i'r Pwyllgor Apél Lleol.**

18. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor** - mae'r hysbyseb wedi cael ei roi yn Y Ffynnon, rhifyn mis Tachwedd a Rhagfyr gyda dyddiad cau **15fed Ionawr 2020. Derbyn.**

19. **Hysbysfwrdd** - Mr Alun Owen eisioes wedi ei gosod rhai ohonynt yn ei lle priodol:- Capel Pencaenewydd, Neuadd Chwilog, Llanystumdwy, a Rhoslan. **Heb dderbyn y bil eto.**

20. **Cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned** - Clerc wedi anfon llythyr at Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor i wneud cais, roedd y cyfanswm gwariant am eleni yn £960.00. **Derbyn.**

21. Anfonebau angen eu talu:- drwy BACS.

Enw	Rheswm	Pris £	TAW £	Cyfanswm £	Taliad BACS
Criccieth Cleaning	Glanhau 9 lloches bws 29.11.19	291.37 (2553)	58.27	349.64	<u>349.64</u>
Capel Pencaenewydd	Defnyddio'r festri i gynnal cyfarfodydd 03.10.19/07.11.19/05.12.19	45.00	-	45.00	<u>45.00</u>
Clifford Hughes Tý Newydd, Llangybi	<u>Torri&clirio cae chwarae Llangybi:-</u> 23.07.19&26.08.19&10.10.19 <i>Golchi matiau</i> <i>Barbio tu cefn i'r ffens</i> Ail daliad barbio llwybrau:- O dan bont traeth Afonwen:- Ynysgain Bach:- Bythynod Tý Newydd Clawdd llanw Bont Fechan Abercin <i>(peidio cynnwys taliad £18.00 Abecin-un toriad y flwyddyn i fod & wedi cael taliad fis Gorffennaf 2019).</i>	204.00 76.00 38.00 108.00 95.00 100.00 114.00 (18.00)		318.00 417.00	<u>735.00</u>
Neuadd Llanystumdwy (Cyfrif Budd-cymunedol).	<u>Wifi</u> £33.60 y mis x12="403.20	403.20		403.20	<u>403.20</u>

Cyflog mis Rhagfyr 2019 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM:-

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad siec rhif:-
Cyflog sylfaenol y Clerc, Rhagfyr 2019 35 awr x £10.37 =	362.95-llai treth £72.60	<u>290.35</u>	101145
Cyllid a Thollau EM- Treth ar enillion y Clerc Rhagfyr 2019	362.95 x 20% = llai treth £72.60	<u>72.60</u>	101147
Costau'r Clerc Rhagfyr 2019 Stamp i anfon rhaglen i'r Cynghorydd W.I.Hughes Cerdyn cydymdeimlad	16.00 0.61 0.61	 <u>17.22</u>	 101146

Materion Hwyr:-

Caniatawyd ei trafod gan y Cadeirydd ar y noson:-

1. **Bin baw ci - Chwilog** - ymholiad yn dweud fod y bin baw ci wedi dod i lawr yn Chwilog ers tro ac angen ei ail osod. Y Clerc wedi trafod y mater hefo aelod o'r cyhoedd yn Chwilog, ac fe ofynwyd tybed a oedd yn bosib ei osod ar y postyn safle bws ar draws y lon. Y Clerc wedi gwneud ymholiadau hefo'r Warden Gorfodaeth Stryd, i'w ail osod, ond **heb dderbyn ymateb eto.**
2. **Graffiti wal fewnol yn yr arosfan bws yn Llangybi** - trafodwyd y mater fod angen cael gwared o'r paent/graffiti sydd yno ers blynyddoedd. **Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu hefo Criccieth Cleaning i gael pris ar gyfer cael gwared ohono.**
3. **Arwyddbost yn Llangybi** - derbyn ymholiad i gael arwydd newydd wrth yr arosfan bws, oherwydd nad oes un yno rwan, ac ar gyfer ymwelwyr sydd yn dod i'r ardal. Angen un yn nodi cyfeiriad i Bryncir, Llangybi a Llanarmon. **Clerc i holi Cyngor Gwynedd.**
4. **Rhwng Ty'n Rhos a Groeslon Bronallt, Llangybi** - cyflwr ochr y lon yn beryglus ar ol glaw trwm gan fod y ffos wedi cau ac mae dail a 'mwd' yn achosi'r dwr lifo ar hyd y lon. **Angen holi i weld os gellir cael 'pyst' yno fel rhybydd i yrrwyr.**
5. **Mainc rhwng Llanystumdwy a Bron Eifion** - un o'r pyst rhybudd wedi cael ei falu. **Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau i gael 'reflector' ar un ochr i'r fainc.**